**Astudiaeth achos 1: Clwstwr ysgolion mawr sy'n canolbwyntio ar hyfforddiant**

### Cefndir

Dechreuodd yr athro ychwanegol cyntaf weithio ar draws clwstwr Caerdydd ym mis Ebrill 2018, a dechreuodd naw athro arall ym mis Medi 2018 – roedd pob un ohonynt ar eu blwyddyn ANG (athro newydd gymhwyso), ac roedd pob un ohonynt wedi cwblhau hon yn llwyddiannus erbyn mis Gorffennaf 2019.

Bu'r model rheoli a chyflawni a fabwysiadwyd yr un peth ar gyfer dwy flynedd y Prosiect, ac roedd cyllid ychwanegol gan yr awdurdod lleol wedi cynorthwyo'r gweithdrefnau rheoli absenoldeb, a'r swydd hon fu'r prif bwynt cyswllt ar gyfer yr athrawon ychwanegol.

Defnyddiwyd calendr Outlook a rannwyd er mwyn rheoli'r broses o neilltuo athrawon rhwng ysgolion, a drefnwyd gan Ysgol Uwchradd Fitzalan (ysgol arweiniol y clwstwr). Neilltuwyd yr athrawon cynradd yn unol â'u sgiliau ac yn ôl y sawl a fyddai 'fwyaf addas' ar gyfer ysgol benodol, ond pe bai angen gwasanaeth cyflenwi ar ysgol arall, roedd capasiti i allu neilltuo athro. Yn ogystal, rhoddwyd llyfryn i bob athro ychwanegol a oedd yn cynnwys y gweithdrefnau ar gyfer pob ysgol gynradd. Roedd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gysondeb ar draws y clwstwr.

| Clwstwr Caerdydd | Neilltuo a rôl | Effaith |
|---|---|---|
| 10 ysgol<br>10 athro<br>Arweinydd y clwstwr yn ysgol uwchradd fawr ddinesig | Gweithiodd pob athro ar draws 3 ysgol bob tymor; gan gael profiad o'r 10 ysgol (1 uwchradd a 9 cynradd) yn ystod y prosiect.<br>Bu athrawon yn cyflenwi er mwyn i athrawon weithio ar gynlluniau gwella ysgol yn gyntaf, ar ddigwyddiadau'r clwstwr ysgolion yn ail, ac yn ystod cyfnodau salwch yn drydydd.<br>Am un prynhawn yr wythnos, bu pob athro ychwanegol yn cael hyfforddiant gyda'i gilydd yn Ysgol Uwchradd Fitzalan (ysgol arweiniol y clwstwr). | Roedd cael cysondeb o ran yr un bobl wedi gweithio'n dda, ac roedd yr ysgolion clwstwr yn awyddus i gyflogi'r athrawon ychwanegol. Roedd wedi gweithio'n dda oherwydd bod yr athrawon ychwanegol yn '*marcio'r gwaith ac yn darparu unrhyw waith dilynol*'; maent yn cael cyswllt gyda'r athrawon dosbarth – '*lle y byddai rhywun o asiantaeth yn ymddangos ac yn mynd'.*<br>*'Yr agwedd fwyaf lwyddiannus ar y prosiect fu ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws y cyfnodau, a'r safonau yn gyffredinol.' (Arweinydd clwstwr)* |


### Hyfforddiant a ddarparwyd

- Ceir ethos gadarn o ran hyfforddi athrawon yn ysgol arweiniol y clwstwr, a darparwyd hyfforddiant ar draws y clwstwr; bu cyfleoedd i Athrawon Newydd Gymhwyso a chynorthwywyr addysgu i arwain gweithdai neu hyfforddiant yn eu maes arbenigol.
- Mae ysgol arweiniol y clwstwr yn ysgol Anelu'n Uchel ANG, a cheir tîm sy'n darparu ar gyfer staff cynradd ac uwchradd.
- Roedd pob athro ychwanegol wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant bob prynhawn

dydd Mercher yn ysgol arweiniol y clwstwr, ac roedd hyn wedi cyfrannu atynt yn '*teimlo eu bod yn rhan o'r ysgol'*.

- Bu'r athrawon ychwanegol yn cymryd rhan yn yr holl hyfforddiant hms yn ysgol arweiniol y clwstwr hefyd.
- Yn ogystal, maent wedi gallu mynychu amrediad o gyfleoedd DPP (datblygiad proffesiynol parhaus) a gynigiwyd gan ysgolion cynradd y clwstwr.

| Cryfderau | Sialensiau |
|---|---|
| • Mae hyfforddi gyda'i gilydd yn golygu bod yr holl athrawon ychwanegol wedi cael '***yr un neges o ran disgwyliadau, ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu** ac mae hyn wedi cael cryn effaith'.*<br>• Maent oll yn **deall y cwricwlwm newydd** – yr athroniaeth sy'n sail iddo a sut y mae gwahanol ysgolion yn ei weithredu.<br>• Mae'r athrawon ychwanegol wedi cael **cyfleoedd i rannu a chydweithio** gyda'i gilydd yn ystod hyfforddiant.<br>• **Mae'r hyfforddiant yn digwydd yn rheolaidd ac yn cael ei gynllunio,** ac nid yw'n digwydd ar sail ad hoc fel y mae ar gyfer athrawon cyflenwi asiantaethau, nad ydynt yn cael fawr iawn o hyfforddiant. | • Er mwyn cynnig cyfle i athrawon ychwanegol gwblhau gweithgarwch cynllunio ac asesu dros y tymor canolig, roedd angen eu neilltuo i ysgolion ar brosiectau dros y tymor hwy. |




*'Mae'r prosiect yn ffordd 'gefnogol i ANG gychwyn eu gyrfa; yn addysgu mewn ystod o ysgolion, yn cwrdd â gwahanol blant. Mae'r athrawon ychwanegol wedi medru addysgu ar draws gyfnodau addysg yn yr un flwyddyn – nid yw rhai athrawon wedi gwneud hynny y neu gyrfa'.* (Pennaeth ysgol clwstwr)

*'Mae grŵp mawr o bobl sy'n mynd trwy eu gwaith ANG ar y cyd a doedd hwn ddim yn wir o'r blaen – roeddech chi ar eich pen eich hunan.'*
(Athro ychwanegol)



https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/gwerthusiad-prosiect-clwstwr-cyflenwi-mewn-ysgolion.pdf

## Astudiaeth achos 2: Cyflenwi ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig

### Cefndir

Dechreuodd un athro ychwanegol weithio ar draws y clwstwr ym mis Tachwedd 2017. Cwblhaodd yr athro ei gyfnod ymsefydlu ANG (athro newydd gymhwyso) yn ystod blwyddyn gyntaf y Prosiect.

Roedd y model rheoli a chyflawni a fabwysiadwyd wedi parhau i fod yn debyg iawn yn ystod dwy flynedd y Prosiect. Roedd yr athro wedi cyflenwi yn ystod cyfnod o absenoldeb hirdymor am bedwar diwrnod yn ysgol arweiniol y clwstwr (Ysgol Maes Ebbw), gan dreulio'r pumed diwrnod yn yr ysgol arall yn y clwstwr (Ysgol Bryn Derw) (pennwyd y trefniant neilltuo yn ôl maint yr ysgolion). Roedd rôl yr athro ychwanegol yn yr ysgol glwstwr yn amrywio; cyflenwi yn ystod CPA (cynllunio, paratoi ac asesu) ar gyfer yr un dosbarth ar y dechrau, gan newid i gyflenwi mewn amrediad o ddosbarthiadau ar gyfer CPA o'r Gwanwyn 2019.

| Clwstwr Casnewydd | Neilltuo a rôl | Effaith |
|---|---|---|
| <br>2 ysgol<br><br>1 athro | Pedwar diwrnod yr wythnos yn ysgol arweiniol y clwstwr, a oedd yn fwy o faint, gan gyflenwi ar gyfer cyfnod o absenoldeb salwch hirdymor.<br>Y pumed diwrnod yn yr ysgol lai – gan ryddhau amrediad o athrawon i gwblhau adolygiadau a chaniatáu i arbenigedd yr athro clwstwr gael ei rannu gyda mwy o staff. | Bu modd cynllunio ymlaen llaw – gyda'r ffocws penodol ar y cwricwlwm sy'n angenrheidiol, mae hyn wedi caniatáu i'r prif athro drosglwyddo rhywfaint o gyfrifoldeb dros faes pwnc penodol.<br><br>*Mae'r bobl ifanc wedi cael budd mawr o gael y cyfle i fanteisio ar wasanaeth [yr athro ychwanegol]. Ni fyddai hyn wedi bod yn wir gydag athro cyflenwi, gan bod [yr athro] wedi cynllunio ar gyfer y dyfodol. (Arweinydd y clwstwr)* |

| Gofynion staffio cyferbyniol rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion Arbennig | |
|---|---|
| Ni chaiff athrawon cyflenwi asiantaeth eu hindemnio er mwyn gallu defnyddio cymwysterau hyfforddiant penodol megis 'team teach, trin' yn yr ysgol Arbennig. O ganlyniad, efallai y bydd athrawon cyflenwi mewn dosbarthiadau **na allant 'symud a thrin',** er eu bod wedi cael hyfforddiant; mae hyn yn golygu bod **mwy o lwyth gwaith** ar yr aelodau eraill o staff yn y dosbarth.<br><br>Ni fyddai problem o'r fath yn un mor enbyd i ysgol brif ffrwd, ond i ysgol Arbennig, ceir mwy o alw i symud disgyblion, mynd i'r toiled ac ati, fel bod '***y galwadau ar staff yn gallu bod yn feichus'.*** Yn y clwstwr hwn, mae'r athro ychwanegol wedi cael cymeradwyaeth y pennaeth i ddefnyddio technegau o'r fath, gan ei bod yn cael ei chyflogi gan yr ysgol. | Mae'r cynorthwywyr addysgu yn **deall y trefniadau arferol a'r systemau** yn well nag y byddai athro cyflenwi achlysurol yn, a byddai angen i'r athro gael eu harwain ganddynt gan eu bod yn adnabod y plant. Oni bai bod athro mewn ystafell ddosbarth yn gyson fel yr 'athro' mewn ysgol Arbennig, rhaid i'r athro gael eu harwain gan y Cynorthwywyr Addysgu gan eu bod nhw yn nabod y plant. |

| Sialensiau staffio | |
|---|---|
| '*Yr her i'r sector* ***yw gwybodaeth am y plant unigol*** *a gwybodaeth am y ffordd y mae ysgol yn gweithio – mae hyn yn bwysicach na'r cwestiwn ynghylch a oes gennych chi dystysgrif sy'n dweud eich bod yn athro cymwys. Mae rhieni yn dymuno gwybod bod rhywun sy'n adnabod eu plentyn ac sy'n deall anghenion eu plentyn o flaen eu plentyn'. (Pennaeth ysgol clwstwr)* | Mae gallu athro i '*gamu i mewn a dod ymlaen gyda dosbarth'* yn wahanol mewn ysgol Arbennig. Er enghraifft, treuliodd yr athro ychwanegol bloc o bythefnos yn yr ysgol glwstwr arall. Bu effaith negyddol ar y disgyblion a thîm y dosbarth yn ysgol arweiniol y clwstwr – mae'n anodd esbonio'r sefyllfa i'r dysgwyr. Gall patrwm wythnosol mwy rheolaidd fod yn fwy addas i ddysgwyr; wrth i'r athro ychwanegol dreulio'r un diwrnod bob wythnos yn yr ysgol glwstwr arall, a'r gwersi yn cael eu cyflwyno yn eu habsenoldeb gan CALU (Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch) Lefel 4 bob wythnos.<br><br>Fodd bynnag, ar y llaw arall, efallai nad yw cysondeb mor bwysig ag y mae yn y brif ffrwd, pan geir un oedolyn yn unig mewn dosbarth – gall dosbarth ysgol Arbennig gynnwys wyth o blant a phedwar oedolyn, ac os bydd yr athro yn newid, gellir sicrhau rhywfaint o gysondeb gan y staff cymorth o hyd. |

**Astudiaeth achos 3: Clwstwr mawr gyda nifer yn llai o athrawon ychwanegol**

## Cefndir

Ceir dau athro ychwanegol sy'n gweithio yng nghlwstwr Wrecsam. Ar y dechrau, bu'r ysgolion clwstwr yn ystyried nifer y plant ar y gofrestr ym mhob ysgol yn y clwstwr, gan gyfrifo canran neilltuo a oedd yn cyfateb â nifer y diwrnodau cyflenwi yr oedd gan bob ysgol yr hawl iddynt bob tymor; roedd rhywfaint o hyblygrwydd yn y trefniant neilltuo hwn. Cwblhawyd yr holl arsylwadau ANG (athrawon newydd gymhwyso) yn Ysgol Heulfan (ysgol arweiniol y clwstwr), lle'r oeddent fwyaf cyfarwydd gyda disgyblion a pholisïau ysgol megis trefniadau rheoli ymddygiad. Yn aml, defnyddiwyd yr athrawon ychwanegol er mwyn rhyddhau staff i ganolbwyntio ar flaenoriaethau ar lefel ysgol megis datblygiad proffesiynol a phrosiectau penodol. Mae rhai o'r ysgolion clwstwr wedi defnyddio amser yr athrawon ychwanegol yn rheolaidd e.e. yr un diwrnod bob wythnos. Mae'r athrawon ychwanegol wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol hefyd. Mae'r clwstwr wedi darganfod nad yw defnyddio'r athrawon ychwanegol er mwyn cyflenwi yn ystod absenoldebau salwch yn ymarferol iawn, gan ei fod yn digwydd ar sail ad hoc. Bu cryn alw am yr athrawon ychwanegol yn y clwstwr.

| Clwstwr Wrecsam | Neilltuo a rôl | Effaith |
|---|---|---|
|  8 ysgol  2 athro | Defnyddir calendr ar-lein i archebu amser yr athrawon, a chaiff y broses neilltuo ei seilio ar nifer y disgyblion yn fras. Mae ysgolion yn tueddu i archebu eu gwasanaeth cyflenwi wythnosau ymlaen llaw ac yn rhan fwyaf yr achosion, defnyddir yr athrawon er mwyn rhyddhau staff i ganolbwyntio ar flaenoriaethau ar lefel ysgol megis datblygiad proffesiynol a phrosiectau penodol. Mae rhai ysgolion yn archebu athro dan drefniant rheolaidd. Yn ogystal, bydd athrawon yn ymwneud â gweithgareddau allgyrsiol. | Mae'r prosiect wedi caniatáu i ysgolion clwstwr godi safonau mewn ysgolion, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau gwella ysgol yn fwy nag y byddent wedi llwyddo i'w wneud fel arall. Mae'r athrawon wedi meithrin perthnasoedd da gyda chydweithwyr ac maent wedi cael budd gan ystod ehangach o ddysgu proffesiynol, gan arsylwi arfer da a chael profiad o weithgareddau allgyrsiol. |

## Manteisio i'r eithaf ar amser yr athrawon ychwanegol sydd ar gael


Ar gyfer y prosiect peilot hwn, penderfynodd y clwstwr dreialu'r cam o gyflogi dau athro ychwanegol ar draws wyth ysgol. Roedd yr ysgolion yn barnu bod hyn yn briodol ar gyfer peilot, ond wrth gwrs, mae wedi golygu y bu angen i ysgolion sicrhau y gwnaethpwyd y defnydd gorau o'u hamser cyfyngedig gyda'r athrawon ychwanegol. O'r herwydd, mae'r ysgolion clwstwr wedi sicrhau eu bod yn caniatáu i athrawon ychwanegol ddarparu gwersi ystyrlon wrth gyflenwi. Maent wedi cynllunio a darparu gwersi ar draws rhan uchaf Cyfnod Allweddol 2 a rhan isaf Cyfnod Allweddol 3, er enghraifft trwy ddarparu sesiynau wythnosol ar lythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth. Yn ogystal, maent wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol; mae un wedi cynorthwyo clwb pêl-droed ar ôl ysgol ac maent wedi mynychu cwrs preswyl gyda disgyblion. Maent wedi bod yn ymwneud â chynllun Ysgol Goedwig hefyd ac wedi darparu cymorth gwerthfawr i ysgol arweiniol y clwstwr. Rhoddwyd pythefnos o amser cynllunio i'r athrawon ychwanegol ar ddechrau'r prosiect ac ym Medi 2018 er mwyn sicrhau y gallent ddarparu gwersi gwerthfawr. Mae dysgwyr wedi pwysleisio eu bod o'r farn bod y gwersi yr un mor werthfawr a bod yr athrawon ychwanegol yn dwyn

| |
|---|
| dulliau gweithredu, adnoddau a gemau newydd i'r ystafell ddosbarth. |

## Defnyddio cyflenwi ar gyfer blaenoriaethau gwella ysgol penodol

Defnyddiwyd yr athrawon ychwanegol yn bennaf er mwyn rhyddhau staff i ganolbwyntio ar flaenoriaethau datblygu ysgol.  Er enghraifft, defnyddio gwasanaeth cyflenwi yr athro ychwanegol:

- Er mwyn i staff weithio ar broses asesu ffurfiannol (a gynhelir gan y consortiwm addysg rhanbarthol).
- Er mwyn i staff weithio yn lefelu gwaith disgyblion ac yn creu portffolios.
- Er mwyn canolbwyntio ar fonitro safonau gwaith disgyblion a monitro meysydd pwnc (mae'n heriol iddynt ryddhau staff ar gyfer gweithgareddau o'r fath fel arfer).  Nododd yr ysgol hon hefyd bod defnyddio'r athrawon ychwanegol yn y fath ffordd wedi caniatáu iddynt barhau i wella yn dilyn cyfnod monitro gan Estyn, gan ganolbwyntio ar ddatblygu dysgu disgyblion a chodi safonau.
- Er mwyn rhyddhau rheolwyr canol, y neilltuwyd blaenoriaeth i bob un ohonynt o'r Cynllun Gwella Ysgol er mwyn bwrw ymlaen ag ef yn ystod yr amser digyswllt hwn.




*Gwerth mwyaf y prosiect fu'r gallu i'r ysgol ddefnyddio [yr athro] yn rheolaidd er mwyn gwneud gwaith safoni mewnol yn yr ysgol.  Mae hyn wedi caniatáu i TAY (tîm arwain yr ysgol) ac arweinwyr pwnc i fonitro a chodi safonau addysgu a dysgu yn barhaus.*

*Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion, y staff a phatrymau'r ysgol, ac mae hyn yn eu helpu i ddarparu gwersi mewn ffordd effeithiol.  Mae ymddygiad y disgyblion wedi bod yn well gan bod yr athrawon yn deall anghenion disgyblion unigol; mae hyn wedi golygu bod y disgyblion yn ymateb yn dda iddynt.  Mae'r addysgu a'r dysgu yn y dosbarth wedi parhau i fod o safon uchel, hyd yn oed pan fyddwn wedi rhyddhau athrawon o'u dosbarthiadau.*

## Astudiaeth achos 4:  Clwstwr cyfrwng Cymraeg

**Cefndir**

Mae clwstwr Castell-nedd Port Talbot wedi peilota gwahanol ffyrdd o neilltuo amser athrawon yn ystod y prosiect.  Ar y dechrau, neilltuwyd cyfran benodol i bob ysgol, ond nid oedd y trefniant hwn yn ymateb mewn ffordd effeithiol i anghenion yr ysgolion wrth iddynt godi.  Yn ail, peilotwyd system hyblyg er mwyn caniatáu ysgolion i ddefnyddio athrawon ar fyr rybudd er mwyn cyflenwi yn ystod salwch neu argyfwng.  Bu'r system hon yn faich i Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, a oedd yn trefnu amser yr athrawon.  Bellach, mae'r clwstwr wedi sefydlu proses o neilltuo amser athrawon er mwyn cynorthwyo cynlluniau gwella yr ysgolion (gan ystyried nifer synhwyrol o ddiwrnodau ar gyfer pob ysgol).  Mae bwrsar Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn cadw trefn ar amser yr athrawon cyflenwi.  Mae ysgolion clwstwr yn ceisio hysbysu'r ysgol arweiniol o'u hanghenion tua fis ymlaen llaw ac mae'r swyddfa gyllid yn darparu amserlen bythefnosol.

Yn gyffredinol, mae'r athrawon cyflenwi wedi gweithio ar draws Cyfnodau Allweddol.  Mae'r system gyfredol wedi caniatáu cydbwysedd da rhwng anghenion ysgolion ac anghenion yr athrawon cyflenwi.

| Clwstwr Castell-nedd Port Talbot | Neilltuo a rôl | Effaith |
|---|---|---|
|  10 ysgol  5 athro | Mae'r clwstwr wedi treialu gwahanol ddulliau gweithredu wrth neilltuo, gan gychwyn gyda chyfanswm cyfartal rhwng ysgolion, a chan symud i ddull gweithredu hollol hyblyg ar alw ac yna yn y diwedd, penderfynu defnyddio'r athrawon er mwyn cynorthwyo blaenoriaethau gwella ysgol ar draws y clwstwr.  Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn gweithio ar draws cyfnodau allweddol a chaiff cyfnodau eu neilltuo iddynt wneud gwaith cynllunio gyda'i gilydd. | Mae ysgolion wedi defnyddio'r athrawon er mwyn rhyddhau staff i ganolbwyntio ar wella ysgol, er enghraifft gweithgarwch cynllunio ar y cyd ar gyfer y cwricwlwm newydd.  Mae'r athrawon yn gyfarwydd gyda pholisïau, dull gweithredu a strategaethau'r ysgolion, gan gynnwys Siarter yr Iaith Gymraeg.  Mae'r prosiect wedi darparu gwasanaeth cyflenwi cyfrwng Cymraeg cyson, y mae'n aml yn rhywbeth anodd i'w sicrhau.<br><br>*Fel arfer, pan fyddwch yn gadael gwaith i athrawon cyflenwi, ni chaiff ei gwblhau bob amser, neu ni chaiff ei gwblhau i'r Safon yr ydych yn ei ddymuno, a bydd yn rhaid i chi ei wneud eto – nid yw hyn wedi digwydd.(Cyfieithiad)* |



https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/gwerthusiad-prosiect-clwstwr-cyflenwi-mewn-ysgolion.pdf

| Manteision penodol i ysgolion clwstwr cyfrwng Cymraeg | Y manteision a gynigiwyd gan y Prosiect i athrawon ychwanegol |
|---|---|
| Mae'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn wynebu sialensiau yn rheolaidd wrth recriwtio staff cyflenwi addas trwy asiantaethau allanol, sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg i safo uchel. Nid yw hi'n anghyffredin i ysgolion ddefnyddio athrawon cyflenwi nad ydynt yn siarad Cymraeg, pan na fydd dewisiadau eraill ar gael iddynt. Mae athrawon ychwanegol yn rhoi sylw i'r sialensiau hyn ym maes cyflenwi, gan sicrhau y gall ysgolion fanteisio ar wasanaeth cyflenwi cyfrwng Cymraeg yn rheolaidd heb gymaint o anhawster.<br><br>Mae athrawon ychwanegol yn gyfarwydd â pholisïau, prosiectau a dulliau gweithredu cyfrwng Cymraeg yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi gallu gweithio yn unol â Siarter iaith Gymraeg yr ysgolion, gan fabwysiadu neu ddatblygu adnoddau priodol.<br><br>Maent wedi deall a chefnogi ffocws yr ysgol ar yr iaith Gymraeg a llythrennedd, gan ddefnyddio'r un ffurfiau iaith a driliau ag a ddefnyddir gan athrawon eraill. Er enghraifft, adroddodd un athro ychwanegol bod cynnal sesiynau Siarad a Gwrando gyda dysgwyr yn amcan perfformiad penodol iddynt. | Mae'r athrawon wedi cael amser i gynllunio ar y cyd ar ddechrau ac ar ddiwedd y tymor. Yn ystod yr amser hwn, maent wedi llwyddo i greu adnoddau, methodolegau addysgu a rennir ac maent wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau ar lefel ysgol.<br><br>Mae'r cyflog a gynigir trwy'r prosiect hwn yn fwy sefydlog na'r cyflog cyflenwi arferol, er ei fod yn parhau i fod yn llai sefydlog na swyddog addysgu barhaol. Mae athrawon yn cael budd o statws athro sydd â rolau parhaol. Maent yn gallu manteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael i athrawon eraill, gan gynnwys cyrsiau penodol am themâu megis ASD (anhwylder yn y sbectrwm awtistig) a diogelu mewn gwahanol ysgolion.<br><br>Yn ogystal, fe'u gwahoddwyd i gymunedau ysgolion, i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol a meithrin perthnasoedd gyda chydweithwyr. Gall y blynyddoedd cyntaf mewn gyrfa addysgu fod yn heriol iawn ac mae teimlo fel rhan o'r gymuned, a chael cymorth angenrheidiol, wedi cael effaith gadarnhaol ar les ANG (athro newydd gymhwyso) ac athrawon cyflenwi.<br><br>Maent wedi gallu cael profiad ar draws gwahanol gyfnodau allweddol (er enghraifft, roedd athro a oedd wedi hyfforddi yn y cyfnod uwchradd wedi cael ychydig brofiad o'r Cyfnod Sylfaen). Bellach, maent yn 'athrawon gwell', a dangoswyd hyn trwy gyfrwng prosesau rheoli perfformiad. |


RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 50/2019 DYDDIAD CYHOEDDI: 12/11/2019

https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/gwerthusiad-prosiect-clwstwr-cyflenwi-mewn-ysgolion.pdf